Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Gwarchodfa Natur Genedlaethol
# Cors Erddreiniog
National Nature Reserve

## Croeso i Warchodfa Natur Genedlaethol Cors Erddreiniog

### Un o gorsydd llawn bywyd gwyllt Môn

Tu allan i East Anglia mae mwy o gorsydd calchog yng Nghymru nag unman arall yn y DU. Gall Ynys Môn frolio tair cors sy'n Warchodfeydd Natur Cenedlaethol: Cors Erddreiniog (yr un fwyaf), Cors Bodeilio a Chors Goch (a reolir gan Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru).

### Beth yw cors?

Glaw yw'r unig ddŵr a gaiff corsydd mawnog, tra bod corsydd calchog (a elwir weithiau'n ffeniau) yn cael eu bwydo gan nentydd a dŵr daear hefyd. Mae dŵr o'r creigiau calchfaen sy'n amgylchynu Corsydd Ynys Môn yn llawn mwynau, ac yn creu amodau perffaith ar gyfer amrywiaeth o blanhigion ac anifeiliaid prin.

### Gwlyptiroedd o bwysigrwydd rhyngwladol

Mae'r math hwn o wlyptir dan fygythiad ac yn brin iawn. Oherwydd yr amrywiaeth anhygoel o fywyd gwyllt mae'n ei chynnal, diogelir y gwarchodfeydd hyn gan ystod o ddynodiadau.

## Welcome to Cors Erddreiniog National Nature Reserve

### One of Anglesey's wildlife-rich fens

Did you know that after East Anglia, Wales has the UK's second largest expanse of fens? Anglesey can boast three fen National Nature Reserves (NNRs): Cors Erddreiniog (the largest), Cors Bodeilio and Cors Goch (managed by the North Wales Wildlife Trust).

### What is a fen?

Bogs are fed solely from rainwater, while fens are also fed by streams and groundwater. Mineral-rich water from the porous limestone rocks that surround the Anglesey Fens drains into them creating the perfect conditions for a whole host of rare plants and animals.

### Internationally important wetlands

This type of threatened wetland is very rare – in fact, because of the incredible range of wildlife it plays host to, these reserves are protected by a range of designations.




© Airbus Defence & Space a Getmapping. Atgynhyrchwyd drwy ganiatâd Llywodraeth Cymru (Taliadau Gwledig Cymru) – Chwefror 2021
© Airbus Defence & Space and Getmapping. Reproduced by permission of Welsh Government (Rural Payments Wales) – February 2021

www.cyfoethnaturiol.cymru
www.naturalresources.wales
0300 065 3000

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n rheoli'r Warchodfa Natur Genedlaethol hon; rhannau o gefn gwlad lle mae enghreifftiau arbennig o gynefinoedd a bywyd gwyllt Prydain wedi'u gwarchod.

Natural Resources Wales manages this National Nature Reserve (NNR); areas of the countryside where special examples of Britain's habitats and wildlife are protected.

**GWYBODAETH MEWN ARGYFWNG: Ffoniwch 999 a gofyn am yr Heddlu.**
**Lleoliad Presennol:** Myndefa Safle Cors Erddreiniog - Cyfeirnod Grid AO: **SH 458 821**

**EMERGENCY INFORMATION: Phone 999 & ask for Police.**
**Current Location:** Cors Erddreiniog Site Entrance - OS Grid Reference: **SH 458 821**






## LLWYBR CORS A LLYN
## FEN AND POND WALK

**Hawdd | Easy**
Pellter **oddi yma** | Distance **from here:** 2½m | 4km
Amser | Time: 1 awr | hour
Dringo | Climb: 11m
Allan ac yn ôl | Out and back

**UCHAFBWYNTIAU: amrywiaeth eang o degeirianau prin, pryfed ac adar yn y Gwanwyn a'r Haf**. Dilynwch yr arwyddion melyn ar draws y ffen gwastad gan ddilyn cyfres o hen ffosydd a phyllau. Ar y cyfan mae'r llwybrau yn llydan ond gall y bydd rhannau heb wyneb yn fwdlyd neu hyd yn oed dan ddŵr yn dilyn glaw trwm. Ceir llawer o giatiau ar hyd y llwybr. Yn y diwedd byddwch yn cyrraedd y llwybr pren sy'n eich arwain drwy'r gwely cyrs at lwyfan lle ceir golygfeydd dros Lyn yr Wyth Eidion. Ceir mainc ar y llwybr lle gallwch eistedd i fwynhau'r olygfa. Ewch yn ôl ar hyd yr un llwybr.

**HIGHLIGHTS: a wide range of rare orchids, insects and birds in the Spring and Summer**. Follow the yellow waymarkers out across the flat fen following a series of old ditches and pools. The trails are generally wide but unsurfaced sections can become muddy or even flood after heavy rain. There are several gates along the trail. Eventually you reach the boardwalk which takes you out through the reedbed to a platform with views across Llyn Wyth Eidion. There is a bench on the trail where you can sit and take in the view. Return by the same route.

**PROFFIL Y LLWYBR | ROUTE PROFILE**

uchder | height (m): 60, 65
pellter | distance (km): 0, 0.5, 1, 1.5, 2, 2.5, 3, 3.5, 4

parcio parking
ffin y GNG NNR boundary
mainc bench


© BJÖRN S

**tegeirian llydanwyrdd bach**
Ni fyddech yn disgwyl gweld y tegeirianau hyn yng nghanol mawnog - ond mae'r dŵr llawn mwynau sy'n rhedeg oddi ar y calchfaen o'i hamgylch yn eu galluogi i dyfu.

**lesser butterfly orchid**
You wouldn't expect to see these orchids in the middle of a peat bog – but the mineral-rich water running off the surrounding limestone allows them to grow.

## Cors Erddreiniog – cyfoeth o gynefinoedd

Cors Erddreiniog yw'r mwyaf o wlyptiroedd enwog Ynys Môn. Crwydrwch y corsydd a'r rhosydd ac fe ddarganfyddwch amrywiaeth o fywyd gwyllt sy'n anodd ei chanfod unrhyw le arall ym Mhrydain.

Llyn oedd gwaelod y dyffryn ar un adeg, a gallwch weld ei weddillion o hyd yn Llyn yr Wyth Eidion. Mawnog ddofn yw'r rhan fwyaf o'r ardal hon erbyn hyn, sy'n cael ei bwydo gan ffrydiau o ddŵr calchog.

Crewyd ffosydd helaeth â llaw dros 100 mlynedd yn ôl er mwyn sychu'r tir ar gyfer pori. Datblygodd amrywiaeth gyfoethog o blanhigion yma hefyd.

## Beth i chwilio amdano

Yn ogystal â chors galchog, fe sylwch hefyd ar gynefinoedd amlwg fel rhosydd gwlyb, sy'n ferw o liwiau pan fydd y grug a'r eithin yn eu blodau.Yn y gwanwyn, fe welwch garped o friallu, blodau'r gwynt, fioledau a thegeirian coch y gwanwyn ar hyd y coetir cyll.

### Corsleoedd sy'n wych ar gyfer adar

Mae'r warchodfa yn llawn bwrlwm yn y gwanwyn a'r haf gyda chân adar fel telor y cyrs a thelor yr hesg, bras y cyrs, y troellwr bach a chlochdar y cerrig - gallwch weld hyd at 150 o rywogaethau adar yma! Hwyrach y gwelwch hefyd y gornchwiglen a'r gylfinir, neu hyd yn oed y gïach cyffredin.

### Rhagorol ar gyfer tegeirianau a blodau prin eraill

Tegeirianau yw sêr y gors galchog. Ac eithrio llond llaw o safleoedd eraill yng ngogledd Cymru, mae Cors Erddreiniog yn unigryw ym Mhrydain am yr amrywiaeth o rywogaethau a geir yma. Cadwch lygad allan yn arbennig am degeirian y gors culddail, tegeirian pêr, tegeirian llydanwyrdd bach a thegeirian y clêr.

### Cors wych ar gyfer bwystfilod bach

Mae yna falwen droellog fechan fan hyn na ellir dod o hyd iddi ond mewn tri safle ym Mhrydain. Ceir digonedd o loÿnnod byw, fel y fritheg berlog bach, britheg y gors a'r copor bach. Y rhai hawsaf i'w gweld yw'r gweision neidr a'r mursennod niferus (20 rhywogaeth!) sy'n hofran ac yn gwibio ar draws y warchodfa.

## Cors Erddreiniog – a rich mix of habitats

Cors Erddreiniog is the largest of Anglesey's internationally renowned rare wetlands. Roam its fens and heaths and you will discover a diversity of wildlife difficult to find anywhere else in Britain.

The valley bottom was once a lake, the remains of which you can still see at Llyn yr Wyth Eidion (Lake of the Eight Oxen). Most of this area is now deep peat bog, fed by lime-rich springs.

Extensive ditches criss-cross the reserve, dug by hand over 100 years ago. These attempts at land improvement lowered the water table for grazing livestock, but also encouraged a rich range of plants.

## What to look out for

As well as fen, you will also notice other distinctive habitats like wet heath – a riot of colour when the heather and gorse are in bloom. In spring the hazel woodland is carpeted with primrose, wood anemone, violet and early purple orchid.

### Reedbeds great for birds

The reserve hums and rattles in spring and summer with the calls of breeding birds like reed and sedge warblers, reed buntings, grasshopper warblers, and stonechats - you can find 150 bird species here! You may also see breeding lapwings and curlew flying over the reserve, or even flush out a snipe.

### Outstanding for orchids and other rarities

Orchids are the fen's speciality. With the exception of a handful of other sites in north Wales, Cors Erddreiniog is unique in Britain for the variety of species you will find here. Keep an eye open especially for the rare narrow-leaved marsh orchid, marsh fragrant orchid, lesser butterfly orchid and fly orchid.

### Fantastic fen for minibeasts

There is a tiny, whorled snail here found at only three sites in Britain. Butterflies are plentiful, such as the small pearl-bordered fritillary, marsh fritillary and the small copper. Easiest of all to spot are the numerous dragonflies and damselflies (20 species!) that hover and dart across the reserve.


© HAJOTTHU

**crwynllys y gors**
Blodyn hardd sy'n prinhau yn ei gynefinoedd gwlyb, ac un a ddefnyddiwyd am ganrifoedd mewn meddyginiaeth.

**marsh gentian**
This rare and beautiful wildflower of wet heaths and peat bogs has been used by herbalists for centuries, but is declining in number.


© CHARLESJSHARPE

**mursen las Penfro** Mae'r fursen yma wedi prinhau, ond yn cael ei gwarchod ac yn destun cynllun gweithredu er mwyn adfer ei niferoedd. Dyma ei safle mwyaf gogleddol.

**southern damselfly** This protected rare and declining damselfly is at its northwestern limit here and has its own 'Species Action Plan' to help it try to survive.

### ER EICH DIOGELWCH:

- **Dŵr dwfn** – cadwch i ffwrdd o ymyl y dŵr a pheidiwch â nofio.
- **Llwybrau mwdlyd** mewn tywydd gwlyb – **gwisgwch esgidiau gyda gafael da**.
- Mae **da byw** yn pori rhannau o'r llwybrau cerdded – **peidiwch â mynd atynt na cheisio'u bwydo; cadwch reolaeth ar gŵn, symudwch o gwmpas y gyr a chaewch y gatiau ar eich ôl**.
- Os gwelwch **wiber**, peidiwch â mynd ati.
- **Rhybudd** – bydd adar **gwyllt yn cael eu saethu** rhwng mis Hydref a mis Chwefror: ufuddhewch i bob arwydd.

Dilynwch y **Côd Cefn Gwlad**: Parchwch, Diogelwch a Mwynhewch gefn gwlad.

Gobeithio y mwynhewch eich ymweliad.

### FOR YOUR SAFETY:

- **Deep water** – keep away from the water's edge and do not swim.
- **Muddy paths** in wet weather – **wear footwear with a good grip**.
- **Livestock** graze parts of the walks – **do not approach or try to feed; keep dogs under close control, move round the herd and shut gates behind you**.
- If you see an **adder** do not approach it.
- **Warning** – wildfowl shooting takes place from October – February: please obey all signs.

Follow the **Countryside Code**: Respect, Protect and Enjoy the countryside.

We hope you enjoy your visit.

Noddir gan **Lywodraeth Cymru**
Sponsored by **Welsh Government**